






Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Is-grŵp Plant ac Addysg y Grŵp Cyngori Technegol Cyngor ar Gludiant i'r Ysgol

31 Gorffennaf 2020



Cyngor ar Gludiant i'r Ysgol¹ gan Is-grŵp Plant ac Addysg y Grŵp Cyngori Technegol - 31 Gorffennaf 2020

Prif negeseuon Cludiant i'r Ysgol - Crynodeb

1. Mae'r cyngor hwn yn seiliedig ar bwysu a mesur tystiolaeth benodol am Covid-19 gyda thystiolaeth ehangach am les plant a manteision addysg.
2. Mae teithio llesol (fel cerdded neu feicio) i'r ysgol yn cynnig amrywiol fanteision i iechyd plant a'r amgylchedd. Dyma hefyd y ffordd o deithio sy'n cario'r lleiaf o risg o drosglwyddo coronafeirws. Os yw'n ddiogel gwneud hynny, dylai plant, pobl ifanc a'u rhieni / gofalmwyr gael eu hannog i deithio i'r ysgol neu goleg ar droed, ar feic neu ar sgwter.
3. Dylid ystyried cludiant penodedig i'r ysgol² fel estyniad o ystad yr ysgol. Dylai plant a phobl ifanc sy'n defnyddio cludiant o'r fath bob dydd gael eu gosod mewn grwpiau er mwyn cyfyngu ar nifer y cysylltiadau.
4. Mae teithiau ar drafnidiaeth gyhoeddus yn debygol o ddwyn ynghyd y rhai sydd mewn risg is o ddal a throsglwyddo Covid-19 (pobl ifanc) a'r rhai mewn risg uwch. Mae'r sefyllfa honno yn annhebygol o godi ar gludiant sy'n cael ei ddarparu i ddisgyblion ysgol yn unig.
5. Bydd cludiant i'r ysgol yn cynnwys disgyblion o wahanol oedrannau, ond mae'r risg o drosglwyddo'r feirws rhyngddynt yn debygol o fod yn dderbyniol o isel os bydd amrywiol fesurau lliniaru yn eu lle².
6. Ymysg y mesurau lliniaru pwysig mae'r canlynol: hylendid, awyru, gwell trefniadau glanhau gan gynnwys glanhau pob arwynebedd yn rheolaidd ac yn drylwyr, a golchi dwylo yn rheolaidd.
7. Mae gyrwyr a staff ar gludiant i'r ysgol yn wynebu risg cymharol uwch o ddod i gysylltiad â'r feirws, a dylid rhoi sylw arbennig i sicrhau eu bod yn cael eu diogelu rhag cael eu heintio drwy'r awyr a thrwy gyffwrdd ag arwynebeddau drwy ddefnyddio sgriniau a chyfarpar diogelu personol.
8. Pan fo angen defnyddio trafndiaeth gyhoeddus (gan gynnwys bysiau, tacsis, trenau neu longau fferi) i gludo plant oedran ysgol (hyd at 19 oed) i'r ysgol, dylid dilyn cyngor a chanllawiau cyffredinol Llywodraeth Cymru a Thrafnidiaeth Cymru. Ar hyn o bryd mae hyn yn cynnwys y defnydd gorfodol o orchuddion wyneb ar gyfer y rhai 11 oed a throsodd, a chadw pellter corfforol lle bynnag y bo'n bosibl.
9. Dylai awdurdodau lleol ac ysgolion barhau i weithio gyda darparwyr cludiant i gynyddu capasiti gymaint â sy'n rhesymol bosibl, ac ystyried cyflwyno amseroedd dechrau/gorffen amrywiol. Dylai'r cynlluniau osgoi cymysgu

¹Mae Cludiant i'r Ysgol yn cynnwys cludiant i leoliadau Addysg Bellach

²Bonell et al 2020 *An evidence-based theory of change for reducing SARS-CoV-2 transmission in reopened schools* <https://www.sciencedirect.com/science/article/pii/S1353829220308807>

disgyblion/myfyrwyr o wahanol ysgolion/ colegau ar yr un cludiant lle bynnag y bo'n bosibl.

10. Mae'r cyngor hwn yn rhagdybio na fydd unrhyw waethygu sylweddol yn lefelau cefndir isel yr haint ymhlith poblogaeth Cymru sy'n cael eu monitro gan fesurau'r 'dangosydd sbarduno cyfyngiadau', ac yn tybio y bydd systemau prydlon ac effeithiol ar gyfer monitro agos, profion cyflym ac olrhain achosion a amheuir.
11. Mae'n bosibl y bydd y rhagofalon yn cael eu llacio wrth i nifer yr achosion o Covid-19 yng Nghymru ostwng. Yn yr un modd, mae'n bosibl y bydd angen cryfhau neu ailgyflwyno mesurau os bydd nifer yr achosion yn codi eto, neu os bydd achosion yn codi yn lleol. Pan fo gan dystiolaeth newydd berthnasol oblygiadau ar gyfer y cyngor hwn, bydd angen ystyried hynny hefyd.
12. Os bydd llacio cyfyngiadau ymhellach, gan gynnwys lleoliadau dan do a thwristiaeth, yn arwain at gynnydd mewn achosion fis Awst a mis Medi, bydd angen defnyddio'r cyngor hwn mewn ffordd hyblyg yn lleol gan ddibynnu ar batrymau trosglwyddiad lleol. Gallai hynny olygu bod angen cadw pellter, a chyflwyno mesurau i ddefnyddio gorchuddion wyneb ar gludiant i'r ysgol os bydd nifer yr achosion yn codi yn lleol. Dylid defnyddio data lleol ar drosglwyddiad yn y gymuned wrth gynnal asesiadau risg a gwneud penderfyniadau.

13. **Cyngor manwl a chyd-destun:**

Cwestiynau allweddol:

- A oes modd lleihau'r gofynion cadw pellter cymdeithasol ar gyfer plant oedran ysgol ar gludiant penodedig i'r ysgol, cerbydau hurio preifat neu drafnidiaeth gyhoeddus, ac os felly, sut a phryd?
 - Pa fesurau lliniaru fyddai'n angenrheidiol pe bai angen llai o gadw pellter cymdeithasol am resymau ymarferol?
 - A fyddai'r cyngor hwn yn wahanol gan ddibynnu ar oedran y plentyn neu'r person ifanc?
 - Beth fyddai'r sefyllfa i yrwyr a/neu oedolion eraill yn teithio gyda phlant oedran ysgol ar gludiant penodedig i'r ysgol?
 - Pa oblygiadau fyddai gan gyngor o'r fath i blant oedran ysgol sy'n teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus i/o'r ysgol?
 - A ddylai gorchuddion wyneb gael eu cynghori neu fod yn orfodol ar gyfer y rhai sy'n teithio ar gludiant penodedig i'r ysgol?
14. Os bydd cyfraddau'r feirws Covid-19 yn y cefndir yn parhau i fod yn isel ac os bydd mesurau Profi, Olrhain, Diogelu a mesurau lliniaru yn parhau i fod yn eu lle, cyngor Is-grŵp Plant ac Ysgolion y Gell Cyngor Technegol Covid-19 yw bod y dystiolaeth o'i phwyso a'i mesur yn awgrymu na ddylai fod yn ofynnol cadw pellter rhwng plant mewn ysgolion cynradd.

15. Nid yw'r dystiolaeth mor glir ar gyfer disgyblion hŷn, ond ar hyn o bryd rydym yn cefnogi yr un dull gweithredu mewn ysgolion uwchradd ar sail cydbwysu'r risgiau hysbys ac effeithiolrwydd mesurau lliniaru.
16. Dylid parhau i gadw pellter o ddwy fetr rhwng oedolion lle bynnag y bo hynny'n bosibl, a rhwng oedolion a phlant nad ydynt o'r un aelwyd.
17. Gellid ystyried cludiant penodedig i'r ysgol fel rhan estynedig o ystad yr ysgol, felly dylai'r holl fesurau lliniaru yn yr ysgol hefyd fod yn gymwys ar gludiant penodedig i'r ysgol. Ni fydd oedolion sy'n aelodau o'r cyhoedd yn teithio ar fysiau penodedig i'r ysgol, felly'r mesurau cadw pellter corfforol y dylid eu dilyn yw'r rhai yn ymwneud â phellter rhwng disgyblion.
18. Ymysg y mesurau lliniaru mae'r canlynol: hylendid, awyru, gwell trefniadau glanhau o fewn cludiant penodol i'r ysgol, gan gynnwys glanhau pob arwynebedd yn rheolaidd ac yn drylwyr, a golchi dwylo a'u diheintio yn rheolaidd.
19. Dylai ysgolion gadw mewn cysylltiad â phob plentyn a pherson ifanc i sicrhau bod pawb yn deall ac yn dilyn y rheolau hylendid i ddiogelu pawb arall, gan bwysleisio pwysigrwydd y cyfrifoldeb cymdeithasol hwn yn rheolaidd.
20. Dylid golchi dwylo a/neu ddiheintio dwylo yn rheolaidd drwy gydol y dydd gan gynnwys wrth fynd i mewn i adeilad yr ysgol.
21. I'r graddau y bo hynny'n bosibl, dylai plant oedran ysgol gael sedd benodol i'w defnyddio'n rheolaidd.
22. Ni ddylid caniatáu bwyta - ac yn arbennig rhannu - bwyd a diod (gan gynnwys unrhyw fyrbrydau) ar gludiant i'r ysgol.
23. Ni ddylai plant na phobl ifanc fynd ar gludiant penodedig i'r ysgol os ydyn nhw, neu aelod o'u haelwyd, yn arddangos symptomau'r coronafeirws.
24. Os bydd plentyn neu berson ifanc yn datblygu symptomau yn yr ysgol, dylid ei anfon adref, ac ni ddylai deithio ar gludiant arferol yr ysgol. Dylai'r ysgol gysylltu â'r rhiant/gofalwr i wneud trefniadau priodol a diogel i gasglu'r plentyn neu berson ifanc. Mewn sefyllfa o'r fath, dylid ystyried defnyddio gorchudd wyneb gan y plentyn neu berson ifanc er mwyn gostwng y risg o drosglwyddo'r feirws.
25. Fel ffordd o gynyddu capasiti cludiant i'r ysgol, anogir awdurdodau lleol i barhau i weithio gyda'r darparwyr trafndiaeth i gynorthwyo i amrywio amseroedd dechrau a gorffen y diwrnod ysgol. Dylid ceisio capasiti ychwanegol arall os yw'n ymarferol.
26. Gellir lleihau'r risg drwy osgoi cymysgu diangen. Lle bynnag y bo'n bosibl ac yn ymarferol, dylai grwpiau teuluol deithio gyda'i gilydd, ac fe ddylai plant a phobl ifanc o'r un grwpiau dosbarth deithio gyda'i gilydd.
27. Fel mesur ataliol cychwynnol, dylai ysgolion osgoi rhannu bysiau ysgol os oes modd.
28. Dylai unrhyw oedolion sy'n teithio ar gludiant penodedig i'r ysgol gydymffurfio â'r gofynion ar gyfer trafndiaeth gyhoeddus (cadw pellter cymdeithasol o 2 fetr os oes modd, a gwisgo gorchudd wyneb).

29. Mae nifer o blant ag Anghenion Cymorth Ychwanegol o bosib angen oedolion fel gofawyr i deithio gyda nhw, yn aml yn agos iawn atynt. Yn gyffredinol, dylai'r oedolion hyn fod yn effro i'r symptomau, a gwisgo gorchudd wyneb os yw hyn yn cyd-fynd â gofal a lles y plentyn. Fodd bynnag, cydnabyddir y bydd gorchuddion wyneb o bosib yn cyfyngu ar y gallu i gyfathrebu, ac y gallant achosi gofid i rai plant.
30. Mae gyrwyr a staff ar drafnidiaeth gyhoeddus, ac i raddau llai, ar gludiant i'r ysgol, mewn perygl cymharol uwch o ddod i gysylltiad â'r feirws, a dylid rhoi sylw arbennig i sicrhau eu bod yn cael eu diogelu rhag cael eu heintio drwy'r awyr a thrwy gyffwrdd ag arwynebeddau. Mewn rhai sefyllfaoedd efallai y bydd newidiadau amgylcheddol o fewn cerbyd yn briodol, megis gosod rhwystrau amddiffyn neu sgriniau diogelwch rhwng y gyrrwr a'r teithwyr. Yr awdurdodau trwyddedu perthnasol, y gweithredwyr a'r cwmni neu unigolyn ddylai wneud penderfyniadau ynghylch a oes angen newid y cerbyd, ar sail eu hasesiad o'r risg.
31. Dylai gyrwyr a chynorthwyrwyr staff eraill ddilyn canllawiau hylendid cyffredinol. Os nad oes modd golchi dwylo, dylid ddefnyddio diheintydd dwylo yn rheolaidd drwy gydol y daith, yn enwedig ar ôl cyflawni unrhyw dasgau sy'n cynnwys cyffwrdd ag arwyneb a allai fod wedi'i gyffwrdd gan rywun arall.
32. Rhaid i yrwyr a staff eraill beidio â gweithio os oes ganddynt symptomau, neu os oes gan rywun sy'n byw ar eu haelwyd symptomau. Dylent wneud trefniadau priodol i fynd adref cyn gynted â phosibl os byddant yn dechrau arddangos symptomau yn y gwaith, ac fe ddylent ddilyn y canllawiau Profi, Orlhain, Diogelu.
33. Dylai plant oedran ysgol sydd ar drafnidiaeth gyhoeddus ddilyn y canllawiau cyffredinol gan Trafnidiaeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys gwisgo gorchuddion wyneb ar gyfer plant 11 oed a throsodd, a chadw pellter cymdeithasol lle bo modd.
34. Dylai ysgolion gydweithio â phob plentyn a pherson ifanc i ddatblygu eu gallu fel dinasyddion cyfrifol, yn enwedig wrth baratoi i deithio ar drafnidiaeth gyhoeddus. Dylid annog defnydd effeithiol o hylif diheintio dwylo, cadachau untro a biniau di-gyffwrdd fel ffordd hanfodol o leihau trosglwyddiad y firws.
35. Dylai awdurdodau lleol gydweithio â darparwyr trafndiaeth i gynyddu capasiti a chyflwyno seddau neu gerbydau penodedig ar gyfer plant oedran ysgol lle bo hynny'n bosibl, fel y gellir grwpio plant o oedran ysgol gyda'i gilydd.
36. Argymhellir y dylai awdurdodau lleol gydweithio â darparwyr trafndiaeth i gael sicrwydd bod mesurau atal a rheoli heintiau ar waith.
37. Ni ddylai gwisgo gorchuddion wyneb fod yn ofynnol ar gyfer y rhan fwyaf o blant (byddai'r rhai sydd wedi cael cyngor clinigol i wisgo gorchudd wyneb yn eithriad) wrth deithio ar gludiant penodedig i'r ysgol. Fodd bynnag, dylid adolygu hyn yn barhaus pe ceid cynnydd yn y cyfraddau Covid-19 yn lleol.
38. Mae gyrwyr a staff ar gludiant i'r ysgol mewn perygl cymharol uwch o ddod i gysylltiad â'r feirws, a dylid rhoi sylw arbennig i sicrhau eu bod yn cael eu

diogelu rhag cael eu heintio drwy'r awyr a thrwy gyffwrdd ag arwynebeddau drwy fesurau lliniaru fel sgriniau persbecs a chyfarpar diogelu personol yn ôl yr angen.

39. Ar drafnidiaeth gyhoeddus, dylai oedolion o'r un aelwyd sy'n teithio gyda phlant oedran ysgol wisgo gorchuddion wyneb. Dylai oedolion sy'n teithio gyda'r plentyn yn rhinwedd ei swydd ddefnyddio'r cyfarpar diogelu personol a argymhellir. Ym mhob achos, gall anghenion a lles y plentyn bennu peth newid i'r gofynion hyn.